

# Gweithgaredd 10 Rhan 1

## Taflen adnoddau 1

### Cyfarwyddiadau gweithredu tasg

Dewiswch y dasg yr hoffech ei gwneud, neu gall yr athro roi un i chi.  
Gweithiwch mewn grwpiau bach; dylai'r rhai hynny sy'n gwneud Tasg Ch weithio mewn parau.

#### TASG A

Crewch sribyn cartŵn, gyda hyd at wyth llun iddo, yn adrodd yr hanes am gychwyn Amnest Rhyngwladol. Cofiwch gynnwys Peter Benenson a'r erthygl wreiddiol yn yr *Observer*, a lansiodd Amnest Rhyngwladol

#### TASG B

Gwnewch boster i esbonio ystyr symbol Amnest Rhyngwladol – sef y gannwyll â gwifren bigog wedi ei lapio amdani.

#### TASG C

Crewch hysbyseb deledu ddwy funud o hyd (chwarae rôl, neu apêl dros y radio) ynglŷn â'r gwaith mae Amnest Rhyngwladol yn ei wneud heddiw. Defnyddiwch apêl i bobl helpu yn y gwaith gan ddefnyddio gwybodaeth o stori Amnest Rhyngwladol.

#### TASG Ch

Archwiliwch a chyflwynwch waith a nodau sefydliad arall sy'n ymgychu dros hawliau dynol. Gan weithio mewn parau, defnyddiwch gerdyn y sefydliad hawliau dynol a roddwyd i chi a'r Rhyngwladol (os yw'n briodol) er mwyn ymchwilio ymhellach. Wedyn:

- tynnwch lun logo'r sefydliad ar ddarn mawr o bapur;
- dewiswch un erthygl allan o Ddatganiad Cyffredinol Hawliau Dynol sy'n cyfateb i bryder eich sefydliad chi;
- paratowch funud o sgwrs ynglŷn â'ch sefydliad ar gyfer gweddill y dosbarth.

# Gweithgaredd 10 Rhan 1

## Taflen adnoddau 2


### Stori Amnest Rhyngwladol

Cyfreithiwr o Loegr oedd Peter Benenson. Un bore darllenodd erthygl mewn papur newydd yn sôn am ddau berson ifanc ym Mhortiwgal a gafodd bryd o fwyd mewn tafarn. Pan orffennodd y ddau fwyta, dyma nhw'n sefyll i fyny a chodi eu gwylau a chynnig llwnc destun. Dywedodd y ddau un gair: 'Liberdade!' (sef 'Rhyddid' ym Mhortiwgaleg). Cawsant eu harestio, eu cyhuddo o dansellio a dymchwel y llywodraeth, ac anfonwyd hwy i garchar am saith mlynedd.

Gwnaeth hyn Peter Benenson yn ddig. Penderfynodd gychwyn sefydliad i weithio dros hawliau dynol a phrotestio os yw llywodraethau yn dwyn hawliau pobl oddi arnynt. Gofynnodd i Olygydd papur newydd yr *Observer* am dudalen er mwyn dweud wrth bobl am ei syniad. Ym mis Mai 1961 cyhoeddwyd Apêl Peter Benenson dros Amnest. Ysgrifennodd am ryddid i siarad, yr hawl i loches a threialon teg. Galwodd am ddiwedd ar artaith. Ysgrifennodd am Y Carcharorion yr Anghofiwyd Amdanynt (*The Forgotten Prisoners*) – pobl a daflwyd i garchar am eu syniadau a'u cred. Dyluniwyd logo Amnest – sef kannwyll wedi ei hamgylchynu â gwifren bigog. Mae'r kannwyll yn cynrychioli gobaith a'r wifren bigog yn cynrychioli carchar. Ysgrifennodd miloedd o bobl mewn i ymuno â'r sefydliad newydd. Ganwyd Amnest Rhyngwladol.

Bellach, Amnest Rhyngwladol yw'r sefydliad hawliau dynol gwirfoddol mwyaf yn y byd. Mae ganddo 2.8 miliwn o aelodau mewn 150 o wledydd. Mae Amnest yn ymgyrchu i amddiffyn yr holl hawliau sydd yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Mae'r mudiad yn helpu unigolion sydd mewn perygl, yn archwilio camdriniaethau hawliau dynol ac yn gweithredu i'w hatal. Mae Amnest yn gwrthwynebu dienyddiadau, trais yn erbyn merched a deddfau gwael. Mae'n cefnogi hawliau sylfaenol pobl i gartrefi gweddus, addysg a gofal iechyd.

Mae aelodau Amnest Rhyngwladol yn gofyn i lywodraethau ddelio ag achosion lle mae hawliau sylfaenol dynol yn cael eu sathru. Maent yn trefnu arddangosfeydd a chyfarfodydd, yn rhannu taflenni, cynnal cyngherddau, arddangos posteri, cysylltu ag ASau ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a gwrthdystiadau.



Logo Amnest Rhyngwladol



Peter Benenson yn cynnal kannwyll Amnest ar ben-blwydd Amnest yn 5 oed.



Mynegiant rhydd – plant yn bod yn greadigol mewn gweithdy hawliau dynol



# Gweithgaredd 10 Rhan 1

## Taflen adnoddau 4

### Fersiwn crynodeb o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol

**1** Cawson ni ein geni'n rhydd ac yn gyfartal, a dylen ni drin pobl eraill yn yr un ffordd.

**2** Mae gyda ni'r hawliau hyn i gyd yn y Datganiad, pwy bynnag rydyn ni, o ble rydyn ni'n dod neu mewn beth rydyn ni'n ei gredu.

**3** Mae gyda ni'r hawl i fywyd, i fod yn rhydd ac i deimlo'n ddiogel.

**4** Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n gwneud ni'n gaethweision. Ni allwn wneud unrhyw un arall yn gaethwas i ni.

**5** Does gan neb yr hawl i'n brifo, i'n poenydio na'n bychanu.

**6** Mae gan bawb yr hawl i gael eiu ddiogelu gan y gyfraith.

**7** Mae'r gyfraith yr un peth i bawb. Mae'n rhaid iddi ein trin ni i gyd yn deg.

**8** Gall pob un ohonom ofyn i'r gyfraith ein helpu ni pan na chawn ein trin yn deg.

**9** Does gan neb yr hawl i'n rhoi yn y carchar, nac ein hanfon i ffwrdd o'n gwlad, heb resymau da.

**10** Os cawn ni ein cyhuddo o dorri'r gyfraith, mae gyda ni'r hawl i brawf teg a chyhoeddus.

**11** Ddylai neb gael y bai am wneud rhywbeth nes bod prawf ei fod wedi ei wneud.

**12** Does gan neb yr hawl i fynd i mewn i'n cartref, agor ein llythrau, nac ein poeni ni neu'n teuluoedd heb reswm da.

**13** Mae gan bob un ohonom yr hawl i fynd lle bynnag y mynnom yn ein gwlad ein hun, ac i deithio dramor fel y dymunwn.

**14** Os bydd rhywun yn ein brifo ni, mae gyda ni'r hawl i fynd i wlad arall i ofyn am amddiffyniad.

**15** Mae gan bob un ohonom yr hawl i berthyn i wlad.

**16** Pan fyddwn ni'n ddigon hen yn ôl y gyfraith, mae gyda ni'r hawl i briodi a chael teulu.

**17** Mae gan bawb yr hawl i berchen ar bethau neu eu rhannu nhw.

**18** Mae gyda ni i gyd yr hawl i'n meddyliau ein hunain ac i gredu mewn unrhyw grefydd.

**19** Rydyn ni'n gallu meddwl am beth bynnag rydyn ni eisiau, dweud beth rydyn ni'n ei feddwl a rhannu syniadau a gwybodaeth gyda phobl eraill.

**20** Mae gyda ni i gyd yr hawl i gwrdd â'n ffrindiau a gweithio gyda'n gilydd mewn heddwch i amddiffyn ein hawliau. Dydy e ddim yn iawn i orfodi rhywun i ymuno â grŵp.

**21** Mae gan bob un ohonom yr hawl i gymryd rhan yn llywodraeth ein gwlad. Dylai pob oedolyn gael yr hawl i ddewis eu harweinyddion ei hun.

**22** Dylai'r lle rydyn ni'n byw ein helpu i ddatblygu a gwneud y gorau o'r holl fanteision (diwylliant, gwaith, lles cymdeithasol) sydd ar gael. Mae cerddoriaeth, celf, crefft a chwaraeon i bawb eu mwynhau.

**23** Mae gan bob oedolyn yr hawl i swydd, yr hawl i gyflog teg am eu gwaith, ac i ymuno ag undeb llafur.

**24** Mae gyda ni i gyd yr hawl i orffwys ac amser rhydd.

**25** Mae gyda ni i gyd yr hawl i safon bywyd da, gan gynnwys digon o fwyd, dillad, tai a chymorth meddygol os ydyn ni'n sâl. Mae gyda mamau a phlant a phobl sy'n hen, yn ddi-waith, neu'n anabl yr hawl i gael gofal.

**26** Mae gyda ni i gyd yr hawl i addysg.

**27** Mae gyda ni i gyd yr hawl i rannu celf a gwyddoniaeth ein cymuned, a'r pethau da maen nhw'n eu gwneud.

**28** Mae'n rhaid cael heddwch a threfn er mwyn amddiffyn yr hawliau a'r rhyddid hyn, ac rydyn ni'n gallu eu mwynhau yn ein gwlad ni a ledled y byd.

**29** Mae dyletswydd arnom dros bobl eraill, a dylem ddiogelu eu hawliau a'u rhyddid.

**30** Ni all neb gymryd yr hawliau a'r rhyddid hyn oddi arnom.

Dyma fersiwn syml o Ddatganiad Cyffredinol Hawliau Dynol gan Amnest Rhyngwladol DU. Mae wedi ei ddatblygu er mwyn galluogi plant iau i ddeall yr hawliau yn y Datganiad. I weld fersiwn llawn y Datganiad ewch i [www.un.org/en/documents/index.shtml](http://www.un.org/en/documents/index.shtml)

# Gweithgaredd 10 Rhan 1

## Taflen adnoddau 5

### Cardiau sefydliadau hawliau dynol



**Save the Children**

[www.savethechildren.org.uk](http://www.savethechildren.org.uk)

Elusen ryngwladol yw Achub y Plant, sy'n gweithio yn y DU ac mewn mwy na 50 o wledydd ledled y byd. Cychwynodd yn Llundain ym 1919 ac mae'n hyrwyddo hawliau plant.

Mae'r sefydliad yn helpu plant sydd wedi eu dal ynghanol ymladd ac sydd wedi eu heffeithio gan ryfeloedd, yn rhedeg rhaglenni bwyd ar gyfer plant sy'n marw o newyn, ac yn darparu gwaith achub brys a rhyddhad mewn achosion o argyfwng, er enghraifft, i blant a effeithiwyd gan ddaeargrynfeydd neu lifogydd. Mae'n rhoi arian tuag at ysgolion, fel y gall plant mewn cymunedau tlawd ddysgu darllen ac ysgrifennu. Mae hefyd yn ariannu prosiectau iechyd.



Yn y DU, mae Achub y Plant yn gweithio gyda pobl ifanc sydd mewn perygl, plant sy'n ffoaduriaid, plant a wahanwyd o'u rhieni a phlant o gymunedau lleiafrifol, e.e. plant mewn ysbyty a theithwyr.



[www.liberty-human-rights.org.uk](http://www.liberty-human-rights.org.uk)

Un o brif sefydliadau hawliau dynol y DU yw Liberty. Er 1934, mae Liberty wedi ymgyrchu i amddiffyn hawliau dynol ym Mhrydain, fel ymladd yn erbyn creulondeb yr heddlu a sensoriaeth ffilmiau yn y 1930au i ymgyrchu y dyddiau hyn yn erbyn cosb heb dreial.

Hefyd, mae Liberty bellach yn ymgyrchu dros hawliau pobl ifanc, gan cynnwys yr hawl i fynegu eu barn ac i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy, a'r hawl i brotestio'n heddychlon a siarad yn agored, e.e. mewn gwrthdystiadau.



# Gweithgaredd 10 Rhan 1

Taflen adnoddau 5 **parhad** Cardiau sefydliadau hawliau dynol



[www.article19.org](http://www.article19.org)

Mae ARTICLE 19 yn gweithio i hyrwyddo, diogelu a datblygu rhyddid barn (sef rhyddid i ddweud eich meddwl) a rhyddid gwybodaeth (sef mynediad at bob math o wybodaeth, yn cynnwys hynny a gedwir gan lywodraethau).

Cychwynnwyd ym 1987, a daw ei enw o Erthygl 19 Datganiad Cyffredinol Hawliau Dynol. Mae gan bawb yr hawl i ryddid barn a mynegiant; mae'r hawl yn cynnwys rhyddid i gael barn heb ymyrraeth ac i dderbyn a rhannu gwybodaeth a syniadau drwy unrhyw gyfrwng, e.e. llyfrau, radio a theledu.

Mae Article 19 yn monitro hawliau pobl i ddweud eu barn a chyrchu gwybodaeth, yn rhoi pwysau ar lywodraethau i ddiogelu rhyddid barn ac yn dioglu pobl a grwpiau sy'n cael eu herlid am fynegi eu syniadau.



Grŵp  
Gweithredu  
Tlodi  
Plant

[www.cpag.org.uk](http://www.cpag.org.uk)

Mae'r Grŵp Gweithredu Tlodi Plant yn ymgyrchu i gael terfyn ar dlodi plant yn y DU ac am fargen well ar gyfer teuluoedd incwm isel a'u plant.

Fe'i sefydlwyd ym 1965 gan y cymdeithasegwyr Dr Harriett Wilson, Yr Athro Peter Townsend ac eraill a oedd yn pryderu am dlodi teuluoedd. Heddiw, mae un o bob tri phlentyn yn y DU yn dal i fyw mewn tlodi. Nod Grŵp Gweithredu Tlodi Plant yw esbonio'r hyn sy'n achosi tlodi plant, ei effaith ar fywydau plant a sut i roi terfyn arno. Mae Grŵp Gweithredu Tlodi Plant yn dadlau dros newidiadau mewn polisi llywodraeth i helpu teuluoedd sy'n brwydro ar incymau isel. Mae'n rhoi gwybodaeth ar fudd-daliadau lles, ac weithiau'n mynd ag achosion i'r llys er mwyn sicrhau bod pobl yn derbyn yr holl gymorth mae gyda nhw hawl iddo.



# Gweithgaredd 10 Rhan 1

Taflen adnoddau 5 **parhad** Cardiau sefydliadau hawliau dynol

## Shelter

[www.shelter.org.uk](http://www.shelter.org.uk)

Elusen genedlaethol sy'n ymgyrchu i roi terfyn ar ddigartrefedd a chartrefi gwael yw Shelter. Cafodd ei lansio ym 1966 gan y Parchedig Bruce Kenrick, a oedd wedi ei arswydo gan gyflwr y cartrefi a'r nifer o deuluoedd digartref yn ei blwyf.

Heddiw, mae Shelter yn helpu mwy na 170,000 o bobl bob blwyddyn ledled y DU sydd angen cyngor a chymorth tai. Gallant fod yn ddigartref neu'n byw mewn tai sydd wedi dirywio, sydd wedi'u gorboblogi neu sy'n beryglus.

Mae Shelter yn credu dylai pawb gael cartref lle gallant ffynnu. Er enghraifft, mae plant sy'n byw mewn tai gwael yn llawer mwy tebygol o ddioddef gan ieched gwael, bwlio, colli ysgol a rhedeg i ffwrdd.

Mae Shelter yn ymladd am fwy o fuddsoddiad mewn tai, ac am ddeddfau newydd er mwyn gwella bywydau pobl ddigartref ac mewn tai gwael, e.e. mae Shelter wedi galw ar y llywodraeth i ddarparu cartrefi mwy fforddiadwy.

